Nid oedd modd i'r DU, fel cenedl fasnachu â hanes o gysylltiadau rhyngwladol yr ymfalchiwyd ynddynt a sector ariannol mawr, ddianc rhag yr helynt hwn ac felly rydym ninnau hefyd mewn dirwasgiad erbyn hyn.

Nid yw'r banciau yn ein trefi a'n dinasoedd yn gweithio fel o'r blaen. Ni all busnesau lleol gael y benthyciadau na'r cyllid sydd eu hangen arnynt, ac mae'n llawer anoddach cael gafael ar forgeisi a oedd yn cael eu hysbysebu drwyddi draw ar y stryd fawr dim ond rai misoedd yn ôl.

# Ymateb y Llywodraeth

---

Mae'r Llywodraeth o'r farn bod yn rhaid i Brydain gymryd camau cadarn. Ni allwn achub pob swydd, achub pob tŷ nac atal pob busnes rhag mynd i'r wal – ond gallwn weithredu er mwyn diogelu ein hunain rhag y gwaethaf a dechrau buddsoddi er mwyn dod drwyddi'n gryfach. Ers y llynedd rydym wedi nodi tri cham ar gyfer ein cynllun gweithredu.



## Cam 1

Ym mis Hydref 2008, cymerwyd camau i **ddiogelu cynilwyr** drwy atal cwmp y system fancio gyfan. Yn gyfnewid am ein cymorth, gofynnwyd i'r banciau barhau i fenthyg arian. Hefyd, ni chaiff y banciau a gaiff gymorth cyhoeddus dalu bonysau arian parod i aelodau bwrdd ychwaith. A rhoddwyd help iddynt yn gyfnewid am gyfranddaliadau, sef buddsoddiad, yr ydym yn bwriadu eu gwerthu yn y dyfodol er mwyn cael ein harian yn ôl.

## Cam 2

Gwnaed hyn er mwyn rhoi hwb i'r economi drwy ddarparu **help gwirioneddol** sy'n rhoi arian ym mhocedi pobl ac yn rhoi cynlluniau buddsoddi ar waith yn gynt. Mae hyn yn cynnwys:

- gostwng treth incwm £145 i bob trethdalwr cyfradd sylfaenol;
- rhoi £60 ychwanegol i bob pensiynwr y gaeaf hwn;
- gostwng TAW a fydd yn werth dros £200 ar gyfartaledd i bob teulu eleni;
- buddsoddi £3 biliwn ychwanegol mewn prosiectau a fydd yn diogelu ac yn creu swyddi; a
- cynnydd o £75 yn fwy na chwyddiant yn elfen plant y Credyd Treth Plant o fis Ebrill 2009, sy'n werth hyd at £2,235 y flwyddyn i deuluoedd.

Mae bron pob gwlad yn buddsoddi arian yn yr economi nawr, hyd yn oed os yw'r ffordd y gwneir hynny yn amrywio.

## Cam 3

Y trydydd cam oedd **dechrau benthyg arian unwaith eto i'r bobl a'r busnesau sydd ei angen** drwy sefydlu pecyn o fesurau i leihau'r pwysau ar farchnadoedd ariannol, dileu'r ansicrwydd ymhlith banciau a gwarantu benthyciadau. Mae banciau a benthycwyr tramor wedi gadael y DU, felly mae angen i fanciau o'r DU ehangu eu cylch gwaith, fel bod mwy o fusnesau yn gallu buddsoddi yn y dyfodol, bod morgesi ar gael yn ehangach unwaith eto, a bod pobl sy'n dibynnu ar fanciau i gynilo yn gallu teimlo'n fwy diogel.

## Y camau nesaf

Bydd yr holl gamau gweithredu rydym wedi eu cyflwyno yn cymryd amser. Nid yw'n bosibl newid pethau dros nos. Ym marn y Llywodraeth, y cam nesaf fydd trawsnewid y sectorau hynny o'n heconomi a fydd yn sicrhau ein ffyniant yn y dyfodol – gan greu **gobaith gwirioneddol ar gyfer y dyfodol**.

Bydd hyn yn cynnwys meysydd allweddol fel technoleg carbon isel, diwydiannau gweithgynhyrchu gwerth uchel a diwydiannau digidol a chreadigol, am fod yn rhaid i ni ail-gydbwysu ein heconomi a chynyddu cyfraddau allforio. Mae Prydain yn ddigon cryf i gymryd rhan fawr o'r cyfoeth a gaiff ei greu wrth i'r economi fyd-eang ddyblu mewn maint.

## Ymateb Llywodraeth Cynulliad Cymru

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn gwneud popeth yn ei gallu i helpu pobl, busnesau a chymunedau drwy'r dirwasgiad byd-eang cyfredol. Elfen allweddol o hyn fu Uwchgynadleddau Economaidd Cymru Gyfan, sy'n dwyn busnesau, undebau a chynrychiolwyr cymunedol ynghyd. Ers yr Uwchgynhadledd gyntaf ym mis Hydref, cyhoeddwyd bron £1 biliwn o gymorth.

Rhoddir ymateb cynhwysfawr Llywodraeth Cynulliad Cymru i'r sefyllfa economaidd gyfredol yn y cyfeiriad isod.

<http://wales.gov.uk/topics/businessandeconomy/recession>

# Gweithio'n rhyngwladol, yn genedlaethol ac yn lleol

---

Mae angen gweithredu:

- yn rhyngwladol
- yn genedlaethol ac
- yn lleol

Yn rhyngwladol, rydym yn arwain y gwaith o gytuno ar atebion rhyngwladol. Eleni, y DU fydd yn cadeirio'r G20 – y grŵp o wledydd sy'n cyfrif am fwy nag 80 y cant o economi'r byd. Ym mis Ebrill, bydd arweinwyr y G20 yn cwrdd yn Llundain. Credwn y bydd twf yn dychwelyd yn gyflymach os gweithiwn gyda'n gilydd. Ein nodau yw cytuno ar y canlynol:

- peidio â dychwelyd i ddiffydollaeth, fel yn y 1930au
- cydweithredu i fuddsoddi arian yn economïau'r byd
- diwygio'r rheolau ar gyfer banciau fel bod pawb yn gliriach o ran eu busnesau – a'r risgiau a gymerir ganddynt

## Help gwirioneddol i Gymru

Ers i'r argyfwng hwn ddechrau mae Llywodraeth y DU wedi bod yn gweithio mewn partneriaeth â Llywodraeth Cynulliad Cymru. Ein blaenoriaethau yw sicrhau bod Cymru mewn sefyllfa dda i wynebu'r dirwasgiad a manteisio ar y gwelliant yn gyflym. Mae'r llyfryn yn disgrifio'r help gwirioneddol sydd bellach ar gael i deuluoedd a busnesau yng Nghymru gan Lywodraeth y DU a Llywodraeth Cynulliad Cymru.

# Help gwirioneddol i bobl nawr

---

Mae'r dirwasgiad yn cael effaith wirioneddol ar unigolion a theuluoedd ac mae angen cymorth ychwanegol ar lawer ohonynt. Felly mae'r llywodraeth yn mynd ati i gynnig amrywiaeth newydd o help i'r rhai sydd ei angen, o berchenogion cartrefi sy'n ei chael yn anodd talu eu morgesi, i weithwyr a allai golli eu swydd a phobl sy'n chwilio am waith neu hyfforddiant.

Mae'r adran hon yn dweud wrthy ch am yr help sydd ar gael nawr a ble i'w gael. Mae hefyd yn cynnwys manylion am gymorth ychwanegol sy'n cael ei gyflwyno'r gwanwyn hwn, a byddwn yn diweddarau'r wybodaeth wrth i fwy o help ddod ar gael.

## Help i gadw eich cartref

Efallai eich bod yn poeni am effaith y dirywiad economaidd bydeang ar eich cartref. Os yw wedi effeithio ar eich swydd, gallech fod yn poeni am gadw i fyny â'ch ad-daliadau morgais. Isod ceir gwybodaeth am yr help sydd ar gael ar hyn o bryd. Caiff cymorth ychwanegol i berchenogion cartrefi ei ddatblygu a bydd ar gael dros y misoedd nesaf.

## Help i osgoi adfeddiannu

Rydym am helpu pobl sy'n cael problemau ariannol i aros yn eu cartrefi. Os ydych yn poeni am dalu eich morgais, dylech siarad â'ch benthyciwr yn gyntaf oherwydd gall eich helpu i ddod o hyd i opsiynau amgen, fel gostwng eich ad-daliadau misol. Mae rheolau newydd a gyflwynwyd ym mis Tachwedd 2008 yn golygu mai dim ond os bydd popeth arall yn methu y dylid adfeddiannu cartref, ac mae benthycwyr wedi cytuno i ystyried yr holl opsiynau posibl er mwyn atal hynny.

Efallai y gallwch gael cyngor cyfreithiol am ddim gan y

**Gwasanaeth Cyfreithiol Cymunedol** i'ch helpu i osgoi achos o adfeddiannu ar unwaith os byddwch yn mynd i'r llys. Gall eich llys sirol ddweud mwy wrthyh chi. Ewch i [[www.hmcourts-service.gov.uk/HMCSCourtFinder](http://www.hmcourts-service.gov.uk/HMCSCourtFinder)].

## **Yn dibynnu ar eich amgylchiadau gallech fod yn gymwys ar gyfer un o ddau gynllun**

**1. Gall Cymhorthdal ar gyfer Llog Morgais** eich helpu gyda'ch taliadau llog morgais er mwyn eich galluogi i aros yn eich cartref os ydych wedi bod yn cael rhai budd-daliadau am 13 wythnos neu fwy, neu os ydych ar yr incwm isaf a heb fawr ddim cynilion. Estynnwyd yr help hwn er mwyn cynyddu'r uchafswm cyfalaf y gellir ei fenthgy a'n cyfrifoldeb ni fydd talu'r llog.

Ewch i **Directgov** [[www.direct.gov.uk](http://www.direct.gov.uk)] am ragor o wybodaeth.

**2. Efallai y gall Cynllun Achub Morgais** Llywodraeth Cynulliad Cymru eich helpu os ydych yn berchenfeddiannydd sy'n ei chael yn anodd talu eich morgais a'ch bod mewn perygl o golli eich cartref.

Dylech gysylltu ag **adran tai eich cyngor lleol** neu eich **Canolfan Cyngor ar Bopeth** leol [[www.citizensadvice.org.uk](http://www.citizensadvice.org.uk)] am ragor o fanylion. Trowch i dudalen 37 am fanylion cyswllt.

## Help gyda chostau tai

Os bydd angen cymorth ariannol arnoch i dalu rhan o'ch rhent neu eich rhent cyfan, gallech gael Budd-dal Tai, ar yr amod bod eich incwm a'ch cyfalaf (cynilion a buddsoddiadau) o dan lefel benodol. Os ydych yn rhentu oddi wrth landlord preifat mae ffordd newydd o gyfrifo Budd-dal Tai sef y Lwfans Tai Lleol.

Gall eich cyngor helpu hefyd drwy roi cyngor ar lety a gaiff ei rentu neu dai cymdeithasol a gall ddweud wrthyich pa fath o help y gallech ei gael, gan gynnwys tai dros dro a mathau eraill o help os ydych yn wynebu'r risg o ddod yn ddigartref.

Cysylltwch â'ch **cyngor lleol** drwy fynd i [[www.direct.gov.uk](http://www.direct.gov.uk)] am ragor o fanylion.

### Pwy arall all helpu?

- **Y Llinell Ddyled Genedlaethol**

[[www.nationaldebtline.co.uk](http://www.nationaldebtline.co.uk)], 0808 808 4000

- Eich **Canolfan Cyngor ar Bopeth** leol

[[www.citizensadvice.org.uk](http://www.citizensadvice.org.uk)]

## Help gyda sgiliau a hyfforddiant

Gall sgiliau newydd eich helpu i lwyddo mewn bywyd. Gall dilyn cwrs gynyddu eich siawns o gadw neu gael swydd, eich helpu i gael dyrchafiad, eich galluogi i newid i ddiwydiant gwahanol neu swydd wahanol. Yn dibynnu ar eich oedran a'ch amgylchiadau, gallech gael hyfforddiant am ddim ynghyd â mathau eraill o gymorth.

## Cyngor ar yrfaedd, sgiliau a hyfforddiant

P'un a ydych yn gweithio ai peidio, gallwch gael cyngor annibynnol ar sgiliau a'r posibiladau o ran swyddi. O sgiliau sylfaenol i hyfforddiant sy'n gysylltiedig â gwaith, hyfforddiant rheoli ac arwain a chyrsgol, efallai y gallech gael hyfforddiant am ddim neu hyfforddiant a ariennir yn rhannol.

Am ragor o wybodaeth, ewch i wefan Gyrfa Cymru, gwasanaeth i Gymru gyfan sy'n rhoi gwybodaeth, cyngor ac arweiniad ym maes gyrfaoedd am ddim i bobl o bob oed. Ewch i [www.gyrfacymru.com](http://www.gyrfacymru.com) neu ffoniwch 0800 100 900.

I ddod o hyd i'ch **coleg agosaf**, er mwyn i chi gael gysylltu ag ef yn uniongyrchol, ewch i [[www.aoc.co.uk/en/about\\_colleges](http://www.aoc.co.uk/en/about_colleges)] a chliciwch ar 'Directory'.

## **Prentisiaethau**

Mae prentisiaethau yn ffordd o ddysgu wrth i chi weithio. Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn ymrwymedig i annog twf prentisiaethau a'r defnydd ohonynt.

Gall gwefan Gyrfa Cymru eich helpu i ddod o hyd i'r cynllun sy'n iawn i chi.

## **Cymorth ariannol ar gyfer hyfforddiant**

Pa gwrs bynnag a ddilynir gennych, efallai y gallech gael grant, benthyciad, (gan gynnwys Benthyciadau Datblygu Gyrfa i astudio yn y coleg neu'r brifysgol), help gyda chostau gofal plant, neu fathau eraill o gymorth ariannol. Gallech hefyd fod yn gymwys i gael Cyfrif Dysgu Unigol Cymru, sy'n helpu i dalu am ffioedd a llyfrau. Cyfeiriad y wefan yw: [www.ilawales.co.uk/](http://www.ilawales.co.uk/)

Mae gwefan Llywodraeth Cynulliad Cymru yn rhoi canllaw defnyddiol ar ariannu oedolion sy'n dysgu.  
[www.cymru.gov.uk/topics/educationandskills](http://www.cymru.gov.uk/topics/educationandskills)

## Help i raddedigion

Mae GoWales, [www.gowales.com](http://www.gowales.com), yn rhoi mantais i fyfyrwyr addysg uwch a graddedigion yn y farchnad gystadleuol sy'n bodoli heddiw. Mae Go Wales yn cynnig profiad gwaith gyda phob math o sefydliad yng Nghymru a chronfa ddata y gellir chwilio drwyddi sy'n addas i raddedigion, yn ogystal â gwybodaeth am y farchnad swyddi yng Nghymru.

Os ydych newydd raddio ac yn ddi-waith bellach, gallwch hefyd gysylltu ag unrhyw wasanaeth cynghori ar yrfaeoddedd mewn prifysgolion. I ddod o hyd i'ch prifysgol leol ewch i

**University Finder HERO** [[www.hero.ac.uk](http://www.hero.ac.uk)].

## Help gyda swyddi a budd-daliadau

Os ydych yn poeni am gollu eich swydd a'r hyn y byddech yn ei wneud am arian petai'r gwaethaf yn digwydd, mae ystod eang o wasanaethau a help ar gael i'ch cefnogi.

## Os ydych ar fin colli eich swydd

Gall colli eich swydd fod yn gyfnod pryderus iawn. Mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn rhoi gwybodaeth am yr hyn y gallwch ei ddisgwyl gan eich cyflogwr a pha effaith y bydd colli swydd yn ei chael ar wneud cais am fudd-dal. Bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn rhoi manylion i chi am ble i gael rhagor o wybodaeth a chymorth ar faterion colli swyddi, gwneud cais am fudd-dal a dod o hyd i swydd newydd.

I ganfod mwy ewch i wefan y **Ganolfan Byd Gwaith** [[www.jobcentreplus.gov.uk](http://www.jobcentreplus.gov.uk)]. Os ydych yn aelod o undeb llafur, gallwch hefyd gael help, cyngor a chymorth ganddo os oes gennych bryderon ynghylch colli eich swydd.

Gall y Gwasanaeth Cyngori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) roi cyngor ac arweiniad ar faterion cyfreithiol sy'n gysylltiedig â dileu swyddi. Ewch i wefan **ACAS** [[www.acas.org.uk](http://www.acas.org.uk)] neu ffoniwch 08457 474747.

### **Os ydych yn chwilio am swydd newydd**

Gall y Ganolfan Byd Gwaith ddweud wrthych am y cyngor a'r cymorth sydd ar gael os ydych yn ddi-waith ac yn chwilio am swydd, yn awyddus i ganfod cyfleoedd dysgu neu hyfforddi, yn methu â gweithio ar hyn o bryd, neu angen cymorth ariannol.

I gael gwybod mwy ewch i wefan y **Ganolfan Byd Gwaith** [[www.jobcentreplus.gov.uk](http://www.jobcentreplus.gov.uk)]. I weld miloedd o swyddi gwag ar-lein ewch i **Directgov** [[www.direct.gov.uk](http://www.direct.gov.uk)].

## Os oes angen i chi hawlio budd-daliadau

Os ydych yn ddi-waith, gallwch gael gwybodaeth am wasanaethau a budd-daliadau'r Ganolfan Byd Gwaith ar-lein. Y budd-dal arferol yw'r Lwfans Ceisio Gwaith, a gallwch wneud cais amdano dros y ffôn. Byddwch hefyd yn cael apwyntiad i ddod i un o Ganolfannau Gwaith Cymru i gael help a chynghor personol ar ddod o hyd i waith.

I wneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith bydd angen y wybodaeth ganlynol arnoch:

- eich rhif Yswiriant Gwladol;
- manylion eich rhent neu'ch morgais;
- manylion eich swyddi blaenorol neu bresennol;
- oedolion sy'n byw yn eich cartref; a
- manylion unrhyw incwm a chynilion eraill, gan gynnwys rhai priod neu bartner.

Dylech ffonio 0800 0 55 66 88 (mae'r llinellau ffôn ar agor rhwng 8am a 6pm, o ddydd Llun i ddydd Gwener). Bydd yr alwad yn cymryd tua 40 munud ac os oes angen gallwn eich ffonio'n ôl.

Ffôn testun 0800 023 4888.

Gallwch hefyd wneud cais am Lwfans Ceisio Gwaith ar-lein yn **Directgov**, neu ewch i [[www.direct.gov.uk/benefitsadviser](http://www.direct.gov.uk/benefitsadviser)] i weld a allech fod yn gymwys i gael unrhyw gymorth ariannol arall.

## Cymorth ychwanegol i'ch helpu i ddychwelyd i'r gwaith

Pan fyddwch yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith, mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn rhoi amrywiaeth o gyngor a chymorth ymarferol i chi i'ch helpu i ddychwelyd i'r gwaith.

Os byddwch yn dal i fod yn ddi-waith ac yn hawlio Lwfans Ceisio Gwaith ar ôl tri mis byddwch yn cael help mwy dwys i ddod o hyd i waith.

Os byddwch yn dal yn ddi-waith ar ôl chwe mis, o fis Ebrill 2009 gallem gynnig cymorth ychwanegol i chi, gan gynnwys:

- **help i sefydlu busnes** – cyngor ar lunio cynllun busnes, ynghyd ag arian ar gyfer y misoedd masnachu cyntaf;
- **opsiynau gwirfoddoli** – mwy o gyfleoedd i wirfoddoli i'ch helpu i gadw eich sgiliau a'ch profiad yn gyfredol neu ddatblygu sgiliau newydd; a
- **y cyfle i gael eich cyflogi** gan gyflogwr a allai gael cymhorthdal recriwtio.

Po hwyaf y byddwch allan o waith, y caletaf y bydd y Ganolfan Byd Gwaith yn gweithio gyda chi. Ewch i **Directgov** [[www.direct.gov.uk](http://www.direct.gov.uk)] i chwilio am swydd.

## Gwasanaeth Ymateb Cyflym

Mae'r Gwasanaeth Ymateb Cyflym yn helpu gweithwyr sy'n mynd i gollu eu swydd drwy wella gwasanaethau'r Ganolfan Byd Gwaith mewn dwy ffordd. Mae ymyryd yn gynnwys yn brif amcan,

gan helpu rhai gweithwyr i gael swyddi newydd cyn iddynt golli eu swyddi cyfredol. Yn ail, drwy'r gwasanaeth hwn, mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn cynnig gwell amrywiaeth o opsiynau i weithwyr, nad ydynt ar gael fel arfer i geiswyr swyddi.

Am ragor o wybodaeth, ewch i'ch Canolfan Byd Gwaith leol.

## **Cynllun Gweithredu ar Ddiswyddiadau (ReAct)**

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru yn darparu cymorth i'ch helpu i feithrin sgiliau newydd a dychwelyd i'r gwaith gyn gynted â phosibl.

Bydd ReAct yn gallu helpu gyda chostau hyfforddiant, cost cyfarpar hyfforddi arbenigol, ad-dalu costau teithio a chostau gofal plant. I weld a ydych yn gymwys, cysylltwch â thîm ReAct ar: 01792 765888, neu e-bostiwch [react.team@wales.gsi.gov.uk](mailto:react.team@wales.gsi.gov.uk)

## **Help i bobl ar incwm isel**

Os ydych ar incwm isel, er enghraifft os cwtogwyd eich oriau gwaith, gallech gael ystod eang o help. Gallai hyn olygu sicrhau eich bod yn cael cyflog byw neu gallai fod ar ffurf help gyda biliau ychwanegol a swm ychwanegol ar ben eich incwm.

## **Yr isafswm cyflog cenedlaethol**

Mae'r isafswm cyflog cenedlaethol (£5.73 yr awr i oedolion), ynghyd â Chredyd Treth Gwaith a budd-daliadau eraill, yn darparu incwm gwarantedig o £292 yr wythnos o leiaf i

deuluoedd ag un plentyn ac un gweithiwr amser llawn, sy'n cyfateb i fwy na £7.38 yr awr.

Ewch i adran cyflogaeth **Directgov** [[www.direct.gov.uk/nmw](http://www.direct.gov.uk/nmw)] neu ffoniwch 0845 6000 678.

**Mae tua miliwn o weithwyr incwm isel yn y DU yn cael help bob blwyddyn drwy'r isafswm cyflog cenedlaethol. Yng Nghymru, mae tua 66,000 o bobl wedi cael budd o'r cynnydd diweddaraf yn y gyfradd.**

## **Help gyda biliau tanwydd**

Os ydych ar incwm isel a naill ai'n anabl, neu mae gennych blentyn o dan bump oed neu blentyn hŷn sy'n anabl, gallech gael Taliadau Tywydd Oer pan fo'r tymheredd yn isel. Nid oes angen i chi wneud cais. Byddwch yn cael y taliad ar yr amod eich bod yn gymwys.

## **Gall Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES)**

Llywodraeth Cynulliad Cymru eich helpu os byddwch am wella effeithlonrwydd ynni eich cartref a'ch bod ar incwm isel neu dros 60 oed. Mae hyn yn cynnwys help i inswleiddio'r atig neu'r wal geudod ac amrywiaeth o ddyfeisiau arbed ynni. Mae'r grant HEES yn darparu pecyn o welliannau gwresogi ac inswleiddio hyd at £3,600.

I weld a ydych yn gymwys, neu am ragor o wybodaeth, ewch i wefan HEES [www.heeswales.co.uk](http://www.heeswales.co.uk) neu ffoniwch linell gyngor **HEES** ar radffon 0800 316 2815.

## Credydau treth

Os ydych yn gyfrifol am o leiaf un plentyn neu berson ifanc sydd fel arfer yn byw gyda chi, gallech fod yn gymwys i gael Credyd Treth Plant. Os ydych yn gweithio, ond yn ennill cyflog isel, gallech fod yn gymwys i gael Credyd Treth Gwaith.

Taliad rheolaidd a wneir i gynorthwyo teuluoedd â phlant, gan gynnwys y rhai rhwng 16 a 19 oed sydd mewn addysg neu hyfforddiant cymeradwy llawn amser, yw Credyd Treth Plant. Mae arian ychwanegol ar gael os yw eich plant yn anabl. Mae'r swm a gewch yn seiliedig ar eich incwm a gallwch gael help p'un a ydych yn gweithio ai peidio. Os ydych yn gweithio mwy nag 16 awr yr wythnos, gallech gael Credyd Treth Gwaith hefyd.

Os nad oes gennych blant, gallech hefyd fod yn gymwys i gael Credyd Treth Gwaith os ydych dros 25 oed ac yn gweithio mwy na 30 awr yr wythnos.

Os bydd eich amgylchiadau'n newid, er enghraifft os bydd eich incwm yn lleihau, gallech fod yn gymwys i gael mwy o help.

Ffoniwch **Linell Gymorth Credydau Treth** ar  
0845 300 3900.

Mae rhagor o wybodaeth am gredydau treth ar gael yn  
[[www.direct.gov.uk/taxcredits](http://www.direct.gov.uk/taxcredits)].

## Help gyda phroblemau ariannol

Os ydych yn wynebu problemau ariannol yn sgîl y dirywiad, mae amrywiaeth o help ar gael i'w gwneud yn haws i chi fod ar dir gwastad unwaith eto.

### Rhyddhad rhag dyled

Mae cost dod yn fethdalwr yn golygu nad yw'r tlotaf bob amser yn cael y cyfle i ddechrau o'r newydd ar hyn o bryd. Bydd **Gorchmynion Rhyddhad rhag Dyled** a fydd ar gael o fis Ebrill 2009 yn helpu i ddatrys hyn.

### Ad-daliadau cardiau credyd

Os ydych yn cael trafferth talu eich biliau cardiau credyd, cysylltwch â'r cwmni i drafod cynllun ad-dalu realistig gyda help asiantaeth cynghori ar ddyled ddielw. Mae cwmnïau cardiau credyd wedi cytuno ar gyfres o 'egwyddorion teg' sy'n eu rhwymo i roi diwedd ar gynnydd dros nos yng nghyfraddau llog cardiau credyd. Hefyd, mae'r diwydiant cardiau credyd wedi cytuno i roi hyd at 60 diwrnod o lonydd i fenthycwyr sy'n cael problemau. Mae hyn yn golygu na fyddant yn mynd ar ôl dyled pan fyddwch yn ceisio rhoi eich hunain ar ben ffordd unwaith eto.

Am ragor o wybodaeth, edrychwch ar y ddalen ffeithiau ar gardiau credyd **Choosing and Using** [[www.choosingandusing.com/resources/documents/CreditCardFactsheet.pdf](http://www.choosingandusing.com/resources/documents/CreditCardFactsheet.pdf)].

## Cyngor ar ddyled

Er mwyn eich helpu os byddwch yn cael trafferthion gyda dyled, mae'r Llywodraeth wedi cynyddu'r arian sydd ar gael ar gyfer y Llinell Ddyled Genedlaethol tan 2011, sy'n golygu y bydd yn gallu helpu 70,000 yn rhagor o bobl gyda'u problemau dyledion.

Gall eich Canolfan Cyngor ar Bopeth leol hefyd roi help a chyngor i chi ar ddyled gan gynnwys eich helpu i gyfrifo ad-daliadau a negodi â chredydwyr. Mae'r Llywodraeth yn cynyddu'r swm o arian sydd ar gael i'r canolfannau hyn eleni, fel y gallant helpu dros dri chan mil o bobl bob blwyddyn drwy roi cyngor wyneb yn wyneb lleol. Ewch i [[www.citizenadvice.org.uk/index/getadvice.htm](http://www.citizenadvice.org.uk/index/getadvice.htm)] i ddod o hyd i'ch Canolfan Cyngor ar Bopeth agosaf.

Er mwyn eich helpu i ddod o hyd i ffynonellau o gyngor a chymorth annibynnol am ddim mewn perthynas â dyled, mae'r Llywodraeth wedi sefydlu borth cynghori ar ddyled ar-lein ar **Directgov** yn [[www.direct.gov.uk/debtadvice](http://www.direct.gov.uk/debtadvice)].

## **Ble i fynd i gael help**

**Y Llinell Ddyled Genedlaethol** [[nationaldebtline.co.uk](http://nationaldebtline.co.uk)],  
0808 808 4000.

Eich **Canolfan Cyngor ar Bopeth** leol  
[[www.citizensadvice.org.uk](http://www.citizensadvice.org.uk)].

Y porth cyngori ar ddyled ar-lein newydd ar  
**Directgov** [[www.direct.gov.uk/debtadvice](http://www.direct.gov.uk/debtadvice)].

Mae Moneymadeclear yr **Awdurdod Gwasanaethau Ariannol** yn rhoi ffeithiau am gynhyrchion a gwasanaethau ariannol, i'ch helpu i wneud penderfyniad hyddysg  
[[www.moneymadeclear.fsa.gov.uk](http://www.moneymadeclear.fsa.gov.uk)].

## **Help i gyflogeion**

Mae help ar gael i'w gwneud yn well ac yn haws i bobl aros mewn gwaith.

### **Gweithio hyblyg**

Gall gweithio hyblyg fod o fudd i gyflogwyr a chyflogeion drwy helpu i sicrhau bod busnesau yn dal i wneud elw a bod pobl yn aros mewn gwaith. O fis Ebrill 2009, bydd gennych yr hawl i ofyn am gael gweithio'n hyblyg os oes gennych gyfrifoldeb rhiant dros blant 16 oed neu iau.

Am ragor o wybodaeth ewch i **Directgov** [[www.direct.gov.uk](http://www.direct.gov.uk)].

## Hawliau cyflogaeth

Gallwch gael cyngor ar eich hawliau cyflogaeth sylfaenol a sut i gofnodi achos o gamymddwyn yn y gweithle yn adran cyflogaeth **Directgov** [[www.direct.gov.uk/employment](http://www.direct.gov.uk/employment)].

Os ydych yn weithiwr asiantaeth gallwch ddysgu mwy am eich hawliau yn adran cyflogaeth **Directgov** [[www.direct.gov.uk/agencyworkers](http://www.direct.gov.uk/agencyworkers)] neu drwy ffonio 0845 955 5105.

## Help i bensiynwyr

Mae help ar gael nid yn unig i bobl o oedran gweithio ond hefyd i bobl hŷn y gallai'r hinsawdd economaidd fyd-eang fod wedi effeithio ar eu bywydau.

## Credyd Pensiwn

Os ydych yn 60 oed neu'n hŷn gallai fod hawl gennych i gael Credyd Pensiwn. Mae Credyd Pensiwn yn sicrhau bod pawb sy'n 60 oed neu'n hŷn yn cael o leiaf £124.05 yr wythnos ar gyfer pobl sengl neu £189.35 yr wythnos ar gyfer cyplau. O fis Ebrill 2009, bydd y gyfradd ar gyfer pensiynwr sengl yn codi i £130 yr wythnos.

Gallwch bellach wneud cais am Gredyd Pensiwn, Budd-dal Tai a Budd-dal Treth Gyngor mewn un alwad, heb fod angen llenwi unrhyw ffurflenni. I wneud cais ffoniwch 0800 99 1234 neu ar gyfer ffôn testun 0900 169 0133.

## **Pensiwn y Wladwriaeth**

Caiff Pensiwn sylfaenol y Wladwriaeth ei gynyddu 5 y cant o fis Ebrill 2009. Mae hyn yn golygu os ydych yn cael Pensiwn sylfaenol llawn y Wladwriaeth bydd eich incwm wythnosol yn cynyddu o £90.70 i £95.25.

## **Bonws Nadolig**

Mae £60 ychwanegol ar gael i bensiynwyr y gaeaf hwn ar ben y bonws Nadolig rheolaidd o £10.

## **Taliadau Tanwydd Gaeaf**

Gallech gael hyd at £250 os ydych rhwng 60 a 79 oed neu hyd at £400 os ydych yn 80 oed neu'n hŷn. Telir y swm yn awtomatig os ydych yn cael pensiwn y wladwriaeth neu fudd-dal nawdd cymdeithasol arall (heb gynnwys Budd-dal Tai, Budd-dal Treth Gyngor a Budd-dal Plant).

Am ragor o wybodaeth ffoniwch y **Linell Gymorth**

**Taliadau Tanwydd Gaeaf** ar 08459 151 515, ffôn testun 0845 601 5613.

## **Taliadau Tywydd Oer**

Mae'r Taliadau Tywydd Oer ar gyfer eleni wedi'u treblu i £25 yr wythnos. Telir y rhain pan fydd y tymheredd cyfartalog lle rydych yn byw yn sero gradd Celsius neu'n is am saith diwrnod yn olynol rhwng 1 Tachwedd 2008 a 31 Mawrth 2009. Nid oes angen i chi wneud cais. Byddwch yn cael y taliad os ydych yn gymwys.

Os ydych dros 60 oed neu ar incwm isel, gallech fod yn gymwys i gael grant **Cynllun Effeithlonrwydd Ynni Cartref (HEES)** Llywodraeth Cynulliad Cymru.

I weld a ydych yn gymwys, neu am ragor o wybodaeth, ewch i wefan HEES [www.heeswales.co.uk](http://www.heeswales.co.uk) neu ffoniwch linell gyngor HEES ar radffon 0800 316 2815.

Hefyd, mae cyflenwyr ynni bellach yn cynnig 'tariffau cymdeithasol' is i'w cwsmeriaid sydd fwyaf agored i niwed ac maent yn bwriadu sicrhau bod tua 600,000 o gyfrifon disgownt o'r fath erbyn diwedd y flwyddyn. Gall y disgowntiau fod yn werth rhwng £200 a £250 y flwyddyn. Am ragor o wybodaeth cysylltwch â'ch cyflenwr ynni.

# Help gwirioneddol i fusnesau nawr

---

Busnesau'r DU yw conglaen yr economi. Mae'r Llywodraeth yn gweithredu i helpu busnesau drwy'r dirwasgiad ac i sicrhau eu bod yn gryfach ar ddiwedd y cyfnod anodd hwn. Mae'r cymorth a amlinellir yn yr adran hon yn cynnwys:

- help i sicrhau credyd a chyllid ar gyfer eich busnes;
- help i reoli eich busnes mewn cyfnod anoddach;
- help i fuddsoddi ar gyfer y dyfodol.

Mae amrywiaeth o gymorth busnes hefyd ar gael drwy Lywodraeth Cynulliad Cymru. Gallwch gael gwybodaeth am y pecynnau cymorth sydd ar gael i fusnesau yng Nghymru drwy fynd i wefan Cymorth Hyblyg i Fusnesau: [www.business-support-wales.gov.uk](http://www.business-support-wales.gov.uk) neu drwy ffonio eich canolfan leol ar 03000 6 03000.

## Help gyda chyllid busnes

Yn yr hinsawdd economaidd bresennol gwyddom fod rhai cwmnïau yn ei chael hi'n anodd cael gafael ar yr arian sydd ei angen arnynt, nid am fod eu busnesau'n methu mewn unrhyw ffordd ond oherwydd bod amodau credyd yn llawer llymach.

## **Hwyluso benthyciadau gan fanciau: gweithredu y tu ôl i'r llenni**

Mae'r Llywodraeth yn gweithio gyda banciau'r DU a Banc Buddsoddi Ewrop i gynnal lefel bresennol benthyciadau a sicrhau bod mwy ar gael i gwmnïau bach a chanolig.

Bydd y **Cynllun Cyfalaf Gweithio** yn sicrhau bod hyd at £20 biliwn o linellau credyd cyfalaf gweithio ar gael i gwmnïau sy'n wynebu risg gyffredin sydd â throsiant o hyd at £500 miliwn y flwyddyn. Bydd hefyd yn rhyddhau cyfalaf y mae'n rhaid i'r banciau ei ddefnyddio ar gyfer rhoi benthyciadau i fusnesau newydd na fyddai ar gael fel arall.

Gyda **Banc Buddsoddi Ewrop**, mae'r Llywodraeth wedi helpu banciau'r DU i negodi llinellau credyd sy'n werth mwy na £4 biliwn er mwyn rhoi benthyciadau i fusnesau bach a chanolig – y mae banciau eisoes wedi sicrhau bod £1 biliwn ohono ar gael.

Banciau sy'n gallu gwneud cais ar gyfer y ddau gynllun uchod ac nid busnesau unigol. Eu nod yw sicrhau bod mwy o gredyd ar gael, y gall busnesau wedyn gael budd ohono.

## **Gwarant Cyllid Menter**

Os oes gennych fusnes sydd â throsiant blynyddol o hyd at £25 miliwn, gallech gael benthyciad o hyd at £1 miliwn am gyfnod o hyd at 10 mlynedd o dan y Warant Cyllid Menter. Gallwch ddefnyddio'r arian i drosi gorddrafft presennol yn fenthyciad er mwyn i chi allu rhyddhau'r cyfleuster gorddrafft ar gyfer gofynion cyfalaf gweithio eraill.

Mae Barclays, Clydesdale/Yorkshire Bank, HBOS, HSBC, Lloyds TSB, RBS/Natwest a Northern Bank wedi ymuno â'r cynllun hwn, felly os byddwch yn gwneud cais am fenthyciad oddi wrth un o'r banciau hyn efallai y gallech gael budd o warant y Llywodraeth. Fel unrhyw fenthyciad arall, eich banc fydd yn penderfynu a fydd yn rhoi benthyciad i'ch busnes ai peidio, ond bydd gwarant y Llywodraeth yn golygu y bydd rhai busnesau na fyddent fel arall wedi gallu benthyc arian yn gallu gwneud hynny. Bydd y Llywodraeth yn monitro'r broses o weithredu'r cynllun hwn.

## **Cronfa Cyfalaf Menter**

Drwy'r gronfa hon, gall busnesau bach dichonadwy sydd â lefelau uchel o ddyled yn barod gael help gwirioneddol i godi arian hirdymor. Bydd rheolwyr cronfeydd proffesiynol yn darparu buddsoddiadau ecwiti y gallwch eu defnyddio i dalu dyledion sydd gennych eisoes, er mwyn rhyddhau cyfalaf ar gyfer eich llif arian o ddydd i ddydd ac i'w fuddsoddi yn y dyfodol. Mae'r Llywodraeth yn darparu £50 miliwn o'r gronfa £75 miliwn hon, gyda'r £25 miliwn sy'n weddill yn cael ei ddarparu gan RBS, HSBC, Lloyds TSB a Barclays.

Dylech ffonio **Llinell Cymorth i Gofrestru'r Gronfa Cyfalaf Menter** ar 0845 459 9780.

## **Arian Masnachol**

Mae Cyllid Cymru yn rhoi arian masnachol i Fentrau Bach a Chanolig dichonadwy a allai ei chael yn anodd cael gafael ar y swm llawn o gyfalaf sydd ei angen arnynt gan y farchnad breifat. I ddsygu mwy am hyn, ewch i: [www.financewales.co.uk](http://www.financewales.co.uk)

Mae Llywodraeth Cynulliad Cymru hefyd yn darparu nifer o gynlluniau cymorth busnes gan gynnwys:

## **Y Gronfa Fuddsoddi Sengl**

Mae'r gronfa, a gaiff ei chynnal drwy Cymorth Hyblyg i Fusnesau, yn darparu cymorth i helpu i gyflawni dyheadau busnesau cymwys sydd angen cymorth i gyflawni prosiectau buddsoddi o ansawdd da yng Nghymru.

## **Cynllun Buddsoddi Sengl Bach**

Gall mentrau bach a chanolig â mwy na phedwar cyflogai gael cyllid grant o dan y cynllun hwn ar gyfer cymorth cyffredinol a mentora strategol.

## **Prosiect Twf Busnes**

Mae'n cynnig lefel newydd o gymorth un-i-un drwy wasanaeth rheoli cydberthnasau arbenigol ar gyfer busnesau bach a chanolig gan gynnwys busnesau cymdeithasol – gan helpu tua 6,000 o fusnesau bach a chanolig sydd â'r potensial i dyfu.

Am ragor o wybodaeth am y cynlluniau hyn ewch i wefan Cymorth Hyblyg i Fusnesau: [www.business-support-wales.gov.uk](http://www.business-support-wales.gov.uk) neu ffoniwch eich canolfan leol ar 03000 6 03000.

## **Angen mwy o amser i dalu eich bil treth?**

Os ydych yn poeni am dalu eich treth, Yswiriant Gwladol, TAW, TWE neu daliadau eraill i adran Cyllid a Thollau EM gallwch gysylltu â'r Gwasanaeth Cymorth Talu i Fusnesau. Bydd staff Cyllid a Thollau EM yn adolygu taliadau eich rhwymedigaeth treth gyda chi ac yn ceisio dod i gytundeb sy'n eich galluogi i dalu dros gyfnod o amser sy'n diwallu anghenion eich busnes ac yn eich helpu yn ystod unrhyw gyfnodau anodd dros dro.

Ni fydd yn rhaid i chi dalu gordaliadau ychwanegol am dalu'n hwyr na dirwyon ar daliadau a gynhwysir yn y trefniant hwn. Fodd bynnag, bydd llog yn dal i fod yn daladwy ar y trethi hynny lle y bo'n gymwys. Mae mwy na 30,000 o fusnesau wedi cael help i ledaenu taliadau yn y ffordd hon, sy'n werth mwy na £500 miliwn o dreth.

Ewch i **Business Link** [[www.businesslink.gov.uk/realhelp](http://www.businesslink.gov.uk/realhelp)] neu ffoniwch y Gwasanaeth Cymorth Talu i Fusnesau ar 0845 302 1435.

### **Rheoli llif arian**

Am ganllawiau byr ar reoli llif arian, a ddatblygwyd gan y **Sefydliad Rheoli Credyd** ac a ariannwyd gan y Llywodraeth, ewch i [[www.creditmanagement.org.uk/berrguides.htm](http://www.creditmanagement.org.uk/berrguides.htm)].

Mae'r Llywodraeth yn annog pob busnes i gytuno i dalu cyflenwyr yn brydlon. Gallwch weld pa fusnesau sydd wedi cytuno ar wefan y **Cod Taliadau Prydlon** [[www.promptpaymentcode.org.uk](http://www.promptpaymentcode.org.uk)].

## **Problemau gyda dyledion**

I gael help cyfrinachol ac annibynnol am ddim i ymdrin â phroblemau gyda dyledion busnes er mwyn i chi allu ymdopi ag anawsterau ariannol yn llwyddiannus, ffoniwch y **Llinell Dyledion Busnes** ar 0800 197 6026.

## **Help i reoli eich busnes**

Efallai y bydd yn rhaid i chi wneud rhai penderfyniadau anodd, ond mae help gwirioneddol ar gael i'ch busnes i adeiladu ar ei gryfderau ac ymdrin ag unrhyw anawsterau.

## **Archwiliad iechyd i'ch busnes**

Gallwch ofyn i gynghorydd busnes proffesiynol adolygu eich busnes am ddim a gall hefyd roi cyngor ymarferol i chi a'ch helpu i gael mathau eraill o help gan y llywodraeth, gan gynnwys yr holl gynlluniau a grybwyllir yma. Mae rhagor o fanylion ar gael ar wefan Cymorth Hyblyg i Fusnesau.

## Ymdrin â diswyddiadau

Gall fod yn galed iawn gwneud y penderfyniadau anodd hynny sy'n effeithio arnoch chi, eich cyflogeion a'ch busnes.

Os oes rhaid i chi ddiswyddo pobl, mae'r Ganolfan Byd Gwaith yn helpu pobl sy'n wynebu'r risg o golli eu swydd i ddechrau chwilio am un newydd, hyd yn oed cyn i hynny ddigwydd, drwy wasanaethau ar-lein a thros y ffôn.

Ewch i wefan y **Ganolfan Byd Gwaith** [[www.jobcentreplus.gov.uk/employers](http://www.jobcentreplus.gov.uk/employers)] a dewiswch 'Help with redundancies' i ddod o hyd i'ch cyswllt lleol yn y Ganolfan Byd Gwaith.

Gall y Gwasanaeth Cyngori, Cymodi a Chyflafareddu (ACAS) hefyd roi cyngor ac arweiniad ar faterion cyfreithiol sy'n gysylltiedig ag osgoi dileu swyddi a dileu swyddi. Ffoniwch 08457 474747 neu ewch i wefan **ACAS** yn [[www.acas.org.uk](http://www.acas.org.uk)].

## ProAct

Gall ProAct, sef un o gynlluniau Llywodraeth Cynulliad Cymru, ddarparu hyfforddiant o ansawdd i gyflogeion sy'n gorfod gweithio llai o oriau, cyn yr ystyrir eu diswyddo. Darperir arian ar sail ddewisol a bydd yn cwmpasu'r hyfforddiant yn ogystal â chymhorthdal cyflog i'r cyflogai wrth iddo gael hyfforddiant.

Ar hyn o bryd mae ProAct yn cynnal cynllun peilot, sy'n canolbwyntio ar y sector Moduro. Am ragor o wybodaeth, ffoniwch 0845 60 661 60 neu e-bostiwch [info@skillspeoplesuccess.com](mailto:info@skillspeoplesuccess.com).

## Recriwtio cyflogeion

O fis Ebrill 2009, gallech gael hyd at £1,000 i'ch ysgogi i recriwtio person sydd wedi bod yn ddi-waith am fwy na chwe mis.

Am ragor o fanylion ewch i wefan **Business Link** [[businesslink.gov.uk/realhelp](http://businesslink.gov.uk/realhelp)].

## Help i allforio

Mae cwsmeriaid a marchnadoedd tramor yn cynnig cyfleoedd gwirioneddol i'ch busnes o hyd.

Mae **Busnes Rhyngwladol Cymru** yn cefnogi ac yn galluogi busnesau newydd a busnesau sy'n bodoli eisoes yng Nghymru i gynnal eu busnes rhyngwladol a sicrhau ei dwf. I ddysgu mwy, ewch i wefan Busnes Rhyngwladol Cymru: [www.ibwales.com](http://www.ibwales.com)

Mae gwefan Cymorth Hyblyg i Fusnesau hefyd yn darparu gwybodaeth am allforio.

## **Lleihau gwastraff ac arbed ynni**

Gall gwefan 'Helpu Cymru i Leihau ei Hôl-troed Carbon' Llywodraeth Cynulliad Cymru roi cyngor i chi ar sut y gall eich busnes arbed arian tra'n diogelu'r amgylchedd.

Ewch i: <http://wales.gov.uk/walescarbonfootprint/home>

## **Help i buddsoddi yn y dyfodol**

Mae busnesau sy'n buddsoddi yn ystod dirwasgiad yn aml yn datblygu i fod yn gryfach ac yn fwy cystadleuol nag oeddent cyn hynny. Yn wir, mae astudiaethau annibynnol wedi canfod bod cwmnïau nad ydynt yn buddsoddi mewn twf, hyfforddiant, ymchwil a datblygu yn ystod dirwasgiad ddwy waith a hanner yn fwy tebygol o fethu na'r rhai sy'n buddsoddi.

## **Adduned Cyflogwyr Sgiliau Sylfaenol**

Mae llawer o gwmnïau yng Nghymru bellach yn gwneud Adduned Cyflogwyr Sgiliau Sylfaenol. Mae'r arwydd cyhoeddus hwn o ba mor bwysig yw buddsoddi yn sgiliau eich pobl i chi yn helpu i ennyn hyder eich cyflogeion ynghyd â'u cymell yn fwy a sicrhau gwell cynhyrchiant.

Ewch i wefan Sgiliau Sylfaenol Cymru am ragor o wybodaeth:  
[[www.basic-skills-wales.org](http://www.basic-skills-wales.org)]

# Gwybodaeth gyswilt am help yng Nghymru

---

## ACAS

Ffoniwch 02920 762 636 neu ewch i [www.acas.org.uk](http://www.acas.org.uk)

## Canolfan Byd Gwaith

Ffoniwch 0845 6060 234 neu am fanylion eich Canolfan Byd Gwaith agosaf ewch i [[www.jobcentreplus.gov.uk](http://www.jobcentreplus.gov.uk)]

## Canolfan Cyngor ar Bopeth

I ddod o hyd i'r Ganolfan Cyngor ar Bopeth sydd agosaf atoch, rhowch eich cod post ar wefan y Ganolfan Cyngor ar Bopeth [[www.citizensadvice.org.uk/index/getadvice.htm](http://www.citizensadvice.org.uk/index/getadvice.htm)]

## Cyllid Cymru

Ffoniwch 0800 587 4140 neu ewch i [www.financewales.co.uk](http://www.financewales.co.uk)

## Cymorth Busnes yng Nghymru

Mae 25 o swyddfeydd Cymorth Hyblyg i Fusnesau lleol ledled Cymru.

Ffoniwch 03000 6 03000 neu am fanylion eich swyddfa leol ewch i [www.business-support-wales.gov.uk](http://www.business-support-wales.gov.uk)

## Cynghorau Lleol

Am fanylion cyswilt eich cyngor lleol, ewch i [[www.direct.gov.uk](http://www.direct.gov.uk)] neu edrychwch yn eich llyfr ffôn lleol.

## **Gyrfa Cymru**

Ffoniwch 0800 100 900

## **Llinell Ddyled Genedlaethol**

Ffoniwch 0808 808 4000

## **Llinell Gymorth Taliadau Busnes Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi**

Ffoniwch 0845 302 1435

## **Skills.People.Success**

Ffoniwch 0845 606 6160

## **Swyddfeydd Treth**

I nodi'r swyddfa dreth gywir i ymdrin â hawliadau unigolion, cyflogwyr, yr hunangyflogedig a threth gorfforaeth, defnyddiwch adnodd chwilio Swyddfa Dreth Cyllid a Thollau Ei Mawrhydi yn [<http://search2.hmrc.gov.uk/kbroker/hmrc/locator/locator.jsp>].

Wales Office	Swyddfa Cymru
Gwydyr House	Tŷ Gwydyr
Whitehall	Whitehall
London	Llundain
SW1A 2NP	SW1A 2NP

Ffôn: 020 7270 0583

[www.walesoffice.gov.uk](http://www.walesoffice.gov.uk)

[www.swyddfa.cymru.gov.uk](http://www.swyddfa.cymru.gov.uk)

Cabinet Office  
22 Whitehall  
London SW1A 2WH

Ffôn: 020 7276 1234

Cyfeiriad gwefan: [www.cabinetoffice.gov.uk](http://www.cabinetoffice.gov.uk)

Dyddiad cyhoeddi: Ebrill 2009

h Hawlfraint y Goron 2009

Gellir atgynhyrchu'r testun yn y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng heb fod angen caniatâd penodol. Mae hyn yn amodol ar beidio â defnyddio'r deunydd mewn modd difriol neu mewn cyd-destun camarweiniol. Rhaid cydnabod ffynhonnell y deunydd fel hawlfraint y Goron a rhaid cynnwys teitl y ddogfen pan y'i hatgynhyrchir fel rhan o gyhoeddiad neu wasanaeth arall.

Daw'r deunydd a ddefnyddiwyd yn y cyhoeddiad hwn o 50% o wastraff ôl-ddefnyddwyr a 50% o ffibr crai.

Cyf: 293232 / 0409

Paratowyd ar gyfer Swyddfa'r Cabinet gan COI